COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO A GYNHALIWYD YN O BELL TRWY SKYPE FOR BUSINESS DYDD IAU, 12 TACHWEDD 2020, AM 14:00

Presennol

Y Cynghorydd LM Walters – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| CA Green | JE Lewis | MJ Kearn | B Sedgebeer |
| RM Granville | AJ Williams | PA Davies | P Davies |
| TH Beedle | A Hussain | | |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

A Williams

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Deborah Exton | Dirprwy Bennaeth Cyllid dros dro |
| Mark Thomas | Pennaeth Gwasanaeth Archwilio Rhanbarthol |
| Samantha Clements | Swyddfa Archwilio Cymru |
| Mark Jones | Rheolwr Archwilio Ariannol, Swyddfa Archwilio Cymru |
| Andrew Rees | Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd |
| Gill Lewis | Pennaeth Cyllid a Swyddog 151 Dros Dro |
| Michael Pitman | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd – Pwyllgorau |
| Nigel Smith | Rheolwr Cyllid |
| Eilish Thomas | Rheolwr Cyllid – Rheoli Ariannol a Chau |
| Martin Morgans | Pennaeth Gwasanaeth - Perfformiad a Gwasanaethau Partneriaeth |
| Simon Roberts | Uwch Ymchwilydd Twyll |
| Joan Davies | Rheolwr Cleient Archwilio |

Aelod Lleyg:

Josephine Williams

209. ETHOL CADEIRYDD

PENDERFYNWYD: Ethol y Cyng. Lyn Walters yn Gadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio am y flwyddyn nesaf.

210. ETHOL IS-GADEIRYDD

PENDERFYNWYD: Ethol y Cyng. Altaf Hussain yn Is-Gadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio am y flwyddyn nesaf.

211. DATGAN BUDDIANT

Dim

212. CYMERADWYO COFNODION

PENDERFYNWYD: cymeradwyo bod cofnodion 10/09/2020 yn wir ac yn gywir.

213. COFNOD GWEITHREDU'R PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO

Cyflwynodd Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd yr adroddiad gerbron y Pwyllgor a restrai'r cofnod gweithredu cyfredol yn atodiad A.

Dywedodd Pennaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol fod a wnelo'r eitem gyntaf ar y Cyfnod Gweithredu, sef Cynllun Archwilio Blynyddol ar gyfer Archwilio Allanol 2017-18, â Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd. Ers cynnwys yr eitem hon ar y cofnod gweithredu, esboniodd fod nifer o ddatganiadau llywodraethu blynyddol wedi dod i law, sef adroddiadau manwl iawn, ac roedd y gwasanaeth archwilio rhanbarthol wedi cyflwyno argymhellion yn gysylltiedig â hyn. Gyda chymeradwyaeth y pwyllgor, gofynnodd am gael dileu'r eitem o'r cofnod gweithredu. Cytunodd y Pwyllgor â'r argymhelliad hwnnw.

PENDERFYNWYD: Bod y Pwyllgor yn nodi'r adroddiad.

214. DIWEDDARIAD ARCHWILIO CYMRU I'R PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO

Cyflwynodd y Rheolwr Archwilio Cyllid adroddiad a roddai'r newyddion diweddaraf i'r pwyllgor am y gwaith archwilio ariannol a pherfformiad a gyflawnwyd, ac a fyddai'n cael ei gyflawni, gan Archwilio Cymru, yn ystod 2020-21.

Esboniodd fod Archwiliad o Grantiau a Ffurflenni'r Cyngor ar gyfer 2019-20 wedi dechrau ac yn mynd rhagddo'n dda.

Esboniodd y Rheolwr Archwilio Cyllid fod yr Archwiliad o ddatganiad cyfrifon y Cyngor ar gyfer 2020-21 heb ddechrau eto, ond mai'r bwriad oedd dechrau hwnnw ym mis Rhagfyr.

Amlinellodd Cynrychiolydd Archwilio Cymru waith Archwilio Perfformiad 2019-2020 ac esboniodd fod yr Adroddiad Gwella Blynyddol (AGB) ar y gweill ac y byddai'n cael ei gyflwyno gerbron y Pwyllgor ym mis Ionawr 2021.

Amlinellodd Cynrychiolydd Archwilio Cymru waith archwilio Perfformiad 2020-21 a'r wybodaeth ddiweddaraf. Esboniodd fod y dystysgrif archwilio Perfformiad wedi'i chyhoeddi ar 6 Tachwedd 2020, gan nodi bod y Cyngor wedi cydymffurfio â'r Ddeddf Mesurau Llywodraeth Leol a bod yr adroddiad ar berfformiad wedi'i gyhoeddi cyn 31 Hydref 2020.

Dywedodd Cynrychiolydd Archwilio Cymru fod yr Asesiad Sicrwydd a Risg ar y gweill ar hyn o bryd, ac y byddai cyfarfod yn cael ei gynnal â'r Bwrdd Rheoli Corfforaethol yn fuan ym mis Chwefror ar y cyd ag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) ac ESTYN.

Esboniodd Cynrychiolydd Archwilio Cymru fod y gwaith ar Gynlluniau Adfer hefyd ar y gweill. Ar y pryd, roedd SAC wedi arsylwi'r Panel Craffu ar Adfer a'r Bwrdd Rheoli Corfforaethol ac roedd y gwaith yn dal i barhau.

Esboniodd Cynrychiolydd Archwilio Cymru fod y gwaith Cynaliadwyedd Ariannol wedi'i rannu'n ddau gam, gyda Cham 1 wedi'i gwblhau a gwaith cwmpasu'n cael ei gyflawni ar gyfer Cam 2. Byddai'r cam hwnnw'n cael ei gwblhau dros weddill blwyddyn ariannol 2020-21.

Esboniodd Cynrychiolydd Archwilio Cymru fod y prosiect â ffocws digidol wedi dechrau ac y byddai briff drafft o'r prosiect yn cael ei anfon ar 22 Hydref 2022. Ychwanegodd fod ymateb wedi dod i law oddi wrth y Prif Weithredwr a'u bod yn llunio ymateb gyda golwg ar gwblhau'r briff terfynol. I gloi, dywedodd fod prosiect dysgu Covid 19 hefyd yn parhau.

PENDERFYNWYD: Bod y Pwyllgor yn nodi Diweddariad Archwilio Cymru i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn Atodiad A.

215. DATGANIAD SEFYLLFA - ADRODDIAD 'GWELLA EIN PERFFORMIAD - MYND I'R AFAEL Â THWYLL YNG NGHYMRU'.

Cyflwynodd y Prif Swyddog Dros Dro - Cyllid, Perfformiad a Newid adroddiad yn rhoi datganiad ynghylch sefyllfa Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yng nghyswllt yr argymhellion a wnaed gan Archwilio Cymru yn ei adroddiad diweddar, 'Gwella Ein Perfformiad - Mynd i'r Afael â Thwyll yng Nghymru'. Mae'r adroddiad hefyd yn rhoi amlinelliad o gynlluniau'r Cyngor ar gyfer y dyfodol.

Esboniodd fod yr adroddiad yn rhoi syniad i'r aelodau o weithgarwch y Cyngor wrth fynd i'r afael â thwyll, a hefyd yn rhoi cyfle i aelodau gyfrannu at ymdriniaeth y Cyngor â'r risg o dwyll.

Esboniodd y Prif Swyddog Dros Dro - Cyllid, Perfformiad a Newid y prif agweddau yn Adroddiad Archwilio Cymru. Ychwanegodd fod y Cyngor wedi llunio datganiad sefyllfa a oedd yn cymharu'r sefyllfa gyfredol o fewn yr awdurdod â'r argymhellion a wnaed yn adroddiad Archwilio Cymru. Roedd hyn wedi'i gynnwys yn Atodiad A, ac Adroddiad Archwilio Cymru wedi'i gynnwys yn Atodiad B.

Esboniodd y Prif Swyddog Dros Dro - Cyllid, Perfformiad a Newid mai argymhellion i Lywodraeth Cymru yn bennaf oedd yr argymhellion gan Archwilio Cymru, ond eu bod yn berthnasol i ni hefyd, am ein bod fel Cyngor yn gyfrifol am ein gweithgarwch Atal Twyll ein hunain.

Amlinellodd y thema'n gysylltiedig â'r Fframwaith Rheoli a Rheolaeth ar Risg, gan nodi y dylai'r holl gyrff cyhoeddus gynnal asesiadau cynhwysfawr o'r risg o dwyll, gan ddefnyddio staff â sgiliau priodol ac ystyried cudd-wybodaeth genedlaethol yn ogystal â chudd-wybodaeth penodol i'r sefydliad. Amlinellodd sefyllfa CBSPO yn hyn o beth, fel y rhestrwyd yn R3 yn atodiad A.

Dywedodd y Prif Swyddog Dros Dro - Cyllid, Perfformiad a Newid fod gan CBSPO bolisïau, gweithdrefnau a mecanweithiau adrodd i atal, canfod ac adrodd am dwyll, llwgrwobrwyo a llygredd. Roedd y rhain
yn cynnwys:-

- Strategaeth a Fframwaith Twyll 2018/19 - 2020/21
- Polisi Chwythu'r Chwiban
- Cod Ymddygiad TGCh
- Polisi Atal Twyll a Llwgrwobrwyo
- Polisi Disgyblu
- Roedd Polisi Atal Efadu Trethi hefyd yn cael ei ddrafftio.

Dywedodd y Prif Swyddog Dros Dro - Cyllid, Perfformiad a Newid fod y dylai staff sy'n gweithio ar draws sector cyhoeddus Cymru dderbyn hyfforddiant ymwybyddiaeth twyll, fel bo'n briodol i'w rôl er mwyn i sefydliadau fod yn fwy effeithiol wrth atal, canfod ac ymateb i dwyll. Dywedodd y bu nifer o ddatblygiadau yn CBSPO yn dilyn hyn, a restrwyd yn R6 yn Atodiad A.

Dywedodd y Prif Swyddog Dros Dro - Cyllid, Perfformiad a Newid fod twyll wedi bod ar gynnydd ers Covid-19. Dywedodd fod angen i bob corff cyhoeddus adeiladu digon o gapasiti i sicrhau adnoddau effeithiol ar gyfer gwaith atal twyll, fel bod ymchwiliadau'n cael eu cynnal mewn modd proffesiynol, ac mewn modd a oedd yn arwain at gosbi drwgweithredwyr yn llwyddiannus ac at adennill colledion. Ychwanegodd fod CBSPO ar

hyn o bryd yn cyflogi un Uwch Ymchwilydd Twyll amser llawn. Byddai swydd Swyddog Twyll newydd amser llawn yn cael ei hysbysebu y mis hwn. Roedd Archwilio Mewnol hefyd yn ymwneud ag ymchwilio a helpu i atal twyll, gan gynnwys ymchwiliadau mewnol a'r Fenter Twyll Genedlaethol. Roedd gwybodaeth bellach am gapasiti ac arbenigedd wedi'i rhestru yn R8-R10.

Esboniodd y Prif Swyddog Dros Dro - Cyllid, Perfformiad a Newid fod angen i'r holl gyrff cyhoeddus ddatblygu a chynnal ymatebion atal twyll deinamig ac ystwyth, a oedd yn cynyddu'r tebygolrwydd o gamau gorfodi llwyddiannus, ac y dylent archwilio a choleddu cyfleoedd i arloesi wrth ddadansoddi data er mwyn cryfhau'r trefniadau i atal a chanfod twyll.

Dywedodd y Prif Swyddog Dros Dro, Cyllid, Perfformiad a Newid fod CBSPO yn cael ei weld fel partner cadarnhaol o ran cydweithio i atal twyll ac roedd R13 yn yr adroddiad yn nodi sefyllfa CBSPO ar y pryd.

Esboniodd y Prif Swyddog Dros Dro - Cyllid, Perfformiad a Newid fod adrodd a chraffu yn bwysig, a bod angen i CBSPO gasglu gwybodaeth am symiau a gafodd eu colli a'u hadennill, a rhannu cudd-wybodaeth am dwyll y naill â'r llall i sefydlu darlun cenedlaethol mwy manwl gywir, cryfhau rheolaethau, gwella trefniadau monitro a chefnogi camau wedi'u targedu. Dywedodd fod y Swyddogion Ymchwil Twyll yn CBSPO yn cofnodi gwybodaeth yn gysylltiedig â Chynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (CTRS) ac achosion yn gysylltiedig â budd-dal tai, ac roedd unrhyw wendidau a nodwyd mewn systemau wrth ymchwilio yn cael eu hystyried a'u datrys os oedd angen. Rhoddwyd adborth i dimau perthnasol fel bo modd iddynt gryfhau eu systemau ymhellach i atal twyll. Ychwanegodd fod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio hefyd yn chwarae rhan hollbwysig wrth adrodd am systemau yn CBSPO a chraffu ar y systemau hynny.

Esboniodd Pennaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol fod yr archwiliadau mewnol arferol yn bwysig fel mesur ataliol i sicrhau bod systemau digonol ar waith er mwyn ymdrin â thwyll. Roedd mesurau ataliol yn cael eu ffafrio bob tro yn hytrach nag ymdrin â twyll ar ôl i hynny ddigwydd.

Ychwanegodd fod angen newid y dull o ymdrin â thwyll yn barhaus, ac roedd gwella asesiadau risg yn agwedd bwysig ar atal twyll.

Gofynnodd Aelod a ellid trefnu sesiwn Hyfforddiant Datblygu'r Aelodau yn y dyfodol er mwyn derbyn hyfforddiant ar faterion yn gysylltiedig â thwyll a sut i'w atal. Esboniodd y Prif Swyddog Dros Dro - Cyllid, Perfformiad a Newid fod hyn wedi cael ei ystyried, ond nad oedd unrhyw fanylion penodol ar y mater eto.

Ychwanegodd y Prif Swyddog Dros Dro - Cyllid, Perfformiad a Newid fod y cyngor wedi cael ei feirniadu am fod yn araf wrth dalu grantiau am wahanol resymau, ee, y grantiau ardrethi annomestig. Er ei bod yn deall y feirniadaeth, esboniodd fod yr angen i warchod arian y Cyngor ac atal twyll posibl yn bwysicach, felly roedd angen taro cydbwysedd rhwng hynny a brysio i dalu grantiau, a allai achosi mwy o broblemau.

Diolchodd yr Aelod Lleyg i'r Prif Swyddog Dros Dro - Cyllid, Perfformiad a Newid am yr adroddiad cynhwysfawr, ac adleisiodd gais yr aelodau am hyfforddiant, yn enwedig ar gyfer y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. O gael hyfforddiant ychwanegol, dywedodd hefyd y gallai'r pwyllgor fod yn offeryn effeithiol i ddatblygu asesiadau risg y Cyngor, gan fod gan bob aelod gefndir a phrofiad gwahanol i'w gynnig. Dywedodd Pennaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol y byddai'n ymchwilio i'r hyfforddiant y gellid ei ddarparu.

Adleisiodd Rheolwr Archwilio Ariannol Archwilio Cymru y sylwadau hyn a nodi y byddai Archwilio Cymru yn hapus i weithio gyda'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol i ymchwilio i hyfforddiant a'i drefnu ar gyfer Aelodau a Swyddogion.

Soniodd Aelod fod Swyddog Heddlu wedi siarad flwyddyn diwethaf mewn Sesiwn Briffio cyn Cyfarfod y Cyngor gan rannu gwybodaeth am dwyll fu'n fuddiol iawn. Gofynnodd a ellid cysylltu â'r swyddog eto ar gyfer unrhyw drefniadau hyfforddi yn y dyfodol.

Esboniodd Ymchwilydd Twyll CBSPO ei fod wedi cael cyfarfod â Heddlu De Cymru yn fuan ym mis Rhagfyr i drafod trefniadau i ddarparu hyfforddiant o bell yn fuan yn 2021.

Gofynnodd y Cadeirydd a fyddai'r asesiad risg twyll yn cael ei gynnal fesul cam, neu ei gynnal unwaith fel cynnyrch gorffenedig.

Esboniodd y Rheolwr Cleient Archwilio nad yw'r broses o asesu risg twyll ond megis dechrau, a'u bod yn ystyried casglu gwybodaeth am arfer da gan awdurdodau lleol eraill, felly byddai'r broses yn cael ei chynnal fesul cam, yn hytrach na chwblhau'r cyfan ar yr un pryd.

Pe ceid unrhyw ddatblygiadau cyn cyfarfod nesaf y Pwyllgor, gofynnodd y Cadeirydd a ellid rhannu'r rhain â'r aelodau er mwyn iddynt allu rhoi unrhyw adborth.

PENDERFYNWYD: Bod y Pwyllgor yn nodi'r datganiad sefyllfa yn Atodiad A, ac adroddiad Archwilio Cymru 'Gwella ein Perfformiad - Mynd i'r Afael â Thwyll yng Nghymru yn Atodiad B.

216. CYNNYDD YN ERBYN CYNLLUN SEILIEDIG AR RISG Y GWASANAETH ARCHWILIO MEWNOL (1 EBRILL 2020 HYD 31 HYDREF 2020).

Cyflwynodd y Rheolwr Cleient Archwilio adroddiad yn rhoi datganiad sefyllfa i'r aelodau o ran y cynnydd yn erbyn y gwaith archwilio a oedd wedi'i gynnwys a'i gymeradwyo yng Nghynllun Seiliedig ar Risg y Gwasanaeth Archwilio Mewnol 2020-21.

Esboniodd fod Atodiad A yn manylu ar y cynnydd rhwng 1 Ebrill 2020 a 31 Hydref 2020 ac yn manylu ar statws pob adolygiad cynlluniedig, y farn archwilio a nifer yr argymhellion canolig neu uchel a wnaed er mwyn gwella'r amgylchedd rheoli.

Esboniodd y Rheolwr Cleient Archwilio fod 10 darn o waith wedi'u cwblhau, a bod hyn yn cynnwys 6 adolygiad archwilio lle rhoddwyd barn. Roedd 2 adolygiad arall wedi'u cwblhau ac adroddiadau drafft wedi'u cyflwyno; roeddem yn dal i ddisgwyl am adborth gan Adrannau Gwasanaeth ar gyfer y rhain, ac roedd 13 o archwiliadau yn dal ar y gweill. Ychwanegodd y byddai 8 archwiliad arall yn dechrau'n fuan.

Dywedodd y Rheolwr Cleient Archwilio fod adolygiad o brosesau wedi cael ei gynnal ar ôl canfod bod swm bach o arian ar goll o'r tun arian parod Byw Gyda Chymorth. Canlyniad yr adolygiad hwnnw oedd na chadwyd yn llawn at fesurau rheoli a gwiriadau rheolaidd. Ers hynny, roedd staff wedi cael gwybod beth oedd y broses, a byddai adolygiad dilynol yn cael ei gynnal i sicrhau bod y prosesau diwygiedig ar waith, a'r staff yn cadw atynt.

Dywedodd y Rheolwr Cleient Archwilio fod 2 argymhelliad o bwys wedi'u gwneud. 1 ar gyfer Amlosgfa Llangrallo, lle nodwyd bod angen i'r staff personol gadw at reolau gweithdrefn ariannol CBSPO yn ogystal â dirprwyaethau'r Cydbwyllgor, ac 1 ar gyfer system Mastergov, a ofynnai am weithredu mesurau diogelwch ychwanegol yn y system fel nad oes modd i ddefnyddiwr gyrchu cofnodion ac iddynt fuddiant personol.

Gofynnodd yr Aelod Lleyg sut y gall y pwyllgor benderfynu pa risgiau sy'n uchel, yn ganolig ac yn isel. Esboniodd y Rheolwr Cleient Archwilio fod yr holl risgiau a oedd wedi'u rhestru yn Atodiad A yn risgiau uchel.

PENDERFYNWYD: Bod aelodau'r Pwyllgor yn nodi cynnwys yr adroddiad a'r cynnydd a wnaed yn erbyn Cynllun Seiliedig ar Risg Blynyddol y Gwasanaeth Archwilio Mewnol ar gyfer 2020-21.

217. ADOLYGIAD O DDATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL 2020-21

Rhoddodd y Prif Swyddog Dros Dro - Cyllid, Perfformiad a Newid y newyddion diweddaraf am y Cynllun Gweithredu i gyd-fynd â'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol (DLIB, a oedd wedi'i gynnwys yn Natganiad Cyfrifon 2019-20, a'r materion o bwys a oedd yn codi ac a oedd i'w hystyried o ganlyniad i adolygiad o'r DLIB ar gyfer 2020-21.

Dywedodd y Prif Swyddog Dros Dro - Cyllid, Perfformiad a Newid fod angen i Aelodau a swyddogion o bob rhan o'r Cyngor gymryd rhan yn weithredol er mwyn sicrhau llywodraethu corfforaethol da. Caiff trefniadau llywodraethu eu hadolygu bob blwyddyn, a defnyddir canfyddiadau'r adolygiad i ddiweddaru'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol. Mae hyn o gymorth i sicrhau bod diwylliant llywodraethu corfforaethol y Cyngor yn gwella'n barhaus. Mae'r DLIB yn cynnal asesiad cyffredinol o drefniadau llywodraethu corfforaethol y Cyngor, ac arfarniad o'r rheolaethau sydd ar waith i reoli risgiau allweddol y Cyngor, gan nodi agweddau y mae angen eu gwella.

Er mwyn cychwyn y broses o lunio Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2020-21, dywedodd y Prif Swyddog Dros Dro, Cyllid, Perfformiad a Newid fod angen adolygu'r Cynllun Gweithredu a oedd yn gysylltiedig â DLIB 2019-20 ynghyd â diweddariad ar gynnydd yn erbyn pob mater llywodraethu o bwys.

Esboniodd y Prif Swyddog Dros Dro - Cyllid, Perfformiad a Newid wrth y Pwyllgor fod Covid-19 wedi effeithio'n sylweddol ar y modd y mae'r Cyngor yn gweithredu ar draws ei holl wasanaethau. Yn rhan o hyn, y mae wedi parhau i ddarparu prydau ysgol am ddim i blant cymwys, cyflwyno Profi Olrhain Diogelu a chynllunio i frechu niferoedd mawr o ddinasyddion. Maer Cyngor wedi sefydlu Panel Adfer trawsbleidiol i oleuo, cefnogi a herio'r ymarfer adfer. Roedd hawliadau am incwm a gollwyd ac am gynnydd mewn costau wedi cael eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru, a'r Cyngor wedi llwyddo i sicrhau 70% o'r symiau a hawliwyd. Bu gostyngiad hefyd yn y dreth gyngor a gasglwyd, a chynnydd yn y ceisiadau a wnaed am ostyngiad i'r dreth gyngor. Dywedodd wrth y Pwyllgor am y newidiadau o ran rheoli - bod 2 Gyfarwyddwr Corfforaethol newydd ar gyfer Cymunedau a Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, ac nad oedd y Cyngor wedi recriwtio i'w swydd hi eto. Dywedodd fod yr awdurdod yn wynebu sefyllfa ariannol heriol, a bod yr ysgolion yn Chwarter 2 yn rhagweld diffyg o £848k.

Mynegodd aelod o'r Pwyllgor ddiolch i'r aelod lleol am waith y Cydwasanaeth Rheoleiddio yng Nghanolfan Gymuned Westward.

PENDERFYNWYD:/ Bod y Pwyllgor:

- yn nodi Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2019-20;
- wedi ystyried Cynllun Gweithredu Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2020-21.

218. RHEOLI'R TRYSORLYS - ADRODDIAD HANNER BLWYDDYN 2020-21

Cyflwynodd y Rheolwr Grŵp - Prif Gyfrifydd adroddiad yn rhoi'r newyddion diweddaraf i'r Pwyllgor am yr adolygiad canol blwyddyn a'r sefyllfa alldro hanner blwyddyn ar gyfer

gweithgareddau rheoli'r trysorlys a dangosyddion rheoli trysorlys 2020-21. Tynnodd sylw hefyd at gydymffurfiaeth â pholisïau ac arferion y Cyngor a oedd wedi'u hadrodd gerbron y Cabinet a'r Cyngor, a rhoddodd y newyddion diweddaraf am y newidiadau arfaethedig i Strategaeth Rheoli Trysorlys 2020-21 a fyddai'n cael eu cyflwyno i'w cymeradwyo gan y Cyngor.

Esboniodd y Rheolwr Grŵp - Prif Gyfrifydd fod y Pwyllgor yn gyfrifol am sicrhau craffu effeithiol ar y Strategaeth a'r polisïau Rheoli Trysorlys. Dywedodd ei bod hi'n ofynnol i'r Cyngor gymeradwyo Strategaeth Rheoli Trysorlys cyn cychwyn pob blwyddyn ariannol sy'n nodi cyfrifoldebau a threfniadau dirprwyo ac adrodd y Cyngor a'r Prif Swyddog Ariannol. Yn dilyn ymarfer aildendro diweddar i ddewis cynghorwyr rheoli trysorlys y Cyngor, dywedodd wrth y Pwyllgor mai Arlingclose oedd y tendrwr llwyddiannus, ac y byddai'n parhau i gynghori'r Cyngor am y 4 blynedd nesaf.

Dywedodd y Rheolwr Grŵp - Prif Gyfrifydd fod y Cyngor wedi cydymffurfio â'i ofynion deddfwriaethol a rheoleiddio yn ystod hanner cyntaf 2020-21, a bod y Strategaeth Rheoli Trysorlys ar gyfer 2020-21 wedi'i hadrodd gerbron y Cyngor ar 26 Chwefror 2020 a'r Alldro Hanner Blwyddyn yn cael ei adrodd gerbron y Cyngor ar 18 Tachwedd 2020. Yn ogystal â hyn, cafodd adroddiad monitro chwarterol ei gyflwyno gerbron y Cabinet ym mis Gorffennaf 2020. Rhoddodd grynodeb o'r gweithgareddau rheoli trysorlys ar gyfer hanner cyntaf 2020-21, a hysbysu'r Pwyllgor nad oedd y Cyngor wedi derbyn unrhyw fenthyciadau hirdymor ers mis Mawrth 2012, ac nid oedd disgwyl y byddai angen unrhyw fenthyciadau newydd hirdymor yn 2020-21. Roedd llifau arian ffafriol wedi darparu cyllid dros ben i fuddsoddi, a gweddill y buddsoddiadau ar 30 Medi 2020 oedd £64.29 miliwn ar gyfradd llog gyfartalog o 0.24%.

Dywedodd y Rheolwr Grŵp - Prif Gyfrifydd wrth y Pwyllgor ei bod hi'n ofynnol yn y Cod Rheoli Trysorlys i'r Cyngor bennu ac adrodd ar nifer o Ddangosyddion Rheoli Trysorlys, sydd naill ai'n rhoi crynodeb o'r gweithgarwch disgwyliedig neu'n gosod terfynau ar y gweithgarwch hwnnw. Dywedodd ei bod hi'n ofynnol i bob awdurdod lleol gynnal adolygiad canol blwyddyn o'i bolisïau, ei arferion a'i weithgareddau rheoli trysorlys ac mai canlyniad yr adolygiad yw bod angen newid terfynau buddsoddi, sef cynyddu cyfanswm y balans y gellir ei fuddsoddi yng Nghronfeydd y Farchnad Arian (MMFs) o £20 miliwn i £30 miliwn. Bydd hynny'n galluogi'r Cyngor i gynyddu nifer yr MMFs sydd ar gael, gan gynorthwyo'r Cyngor i fuddsoddi balansau arian parod positif mewn portffolio buddsoddi llawer ehangach. Yn ogystal â hynny, bydd diwygio'r terfyn buddsoddi ar gyfer Darparwyr Cofrestredig o £3 miliwn i £5 miliwn yn creu mwy o gyfle i ddefnyddio'r math hwn o fuddsoddiad nag a geir ar hyn o bryd. Gan fod y Cyngor wedi bod â balansau arian parod positif yn ei feddiant bydd hyn yn ei gwneud hi'n fwy posibl i'r Cyngor fuddsoddi ar lefel ymarferol, a hefyd yn creu mwy o amrywiaeth yn yr arian a fuddsoddir. Amlinellodd y Strategaeth Rheoli Trysorlys ddiwygiedig a gynigiwyd, a'r diwygiadau arfaethedig. Mae'r diwygiadau hyn wedi bod yn destun trafodaeth â Chynghorwyr Rheoli Trysorlys y Cyngor.

PENDERFYNWYD: Bod y Pwyllgor:

- Yn nodi gweithgareddau rheoli trysorlys 2020-21 ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2020 hyd 30 Medi 2020, a'r Dangosyddion Rheoli Trysorlys a ragamcanwyd ar gyfer 2020-21.
- Argymhellir y dylid cyflwyno'r newidiadau arfaethedig i Strategaeth Rheoli Trysorlys 2020-21 i'r Cyngor i'w cymeradwyo ym mis Tachwedd 2020.

219. GRANTIAU CYFLEUSTERAU I'R ANABL - ADRODDIAD AR GYNNYDD A DATGANIAD O'R SEFYLLFA

Rhoddodd y Prif Swyddog Dros Dro - Cyllid, Perfformiad a Newid y newyddion diweddaraf am gamau a gymerwyd i fwrw ymlaen â gwelliannau i'r gwasanaeth Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl (DFG). Rhoddodd wybodaeth hefyd am y sefyllfa bresennol o ran paratoi i benderfynu ar y model darparu gorau i Ben-y-bont ar Ogwr.

Dywedodd y Prif Swyddog Dros Dro - Cyllid, Perfformiad a Newid fod adroddiadau blaenorol i'r Pwyllgor wedi amlinellu'r angen hollbwysig i ail-lunio a gwella darpariaeth y gwasanaeth DFG ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Gan nad yw'r gwasanaeth wedi llwyddo i gyrraedd ei dargedau dangosydd perfformiad ers cryn amser, ar ôl ystyried ffactorau a godwyd gan yr Aelodau, y swyddogaeth Graffu, y Gwasanaeth Archwilio Mewnol, ac o ymchwilio mewn awdurdodau lleol eraill, casglwyd bod angen newid sylfaenol i'r model darparu ar gyfer y gwasanaeth. Dywedodd nad yw'r amseroedd ar gyfer darparu DFGs, yn enwedig mewn achosion cymhleth a oedd yn cynnwys plant, yn gyson â dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, a bod y Cyngor yn chwartel isaf Cymru o ran amseroedd darparu.

Dywedodd y Prif Swyddog Dros Dro - Cyllid, Perfformiad a Newid fod gwaith ymchwil a dadansoddi yn cael ei gynnal ar amryw o lefelau i fwrw ymlaen â'r newidiadau sydd eu hangen er mwyn gwella darpariaeth y gwasanaeth DFG. Mae hyn wedi cynnwys ymagwedd systemau 'syniadaeth ddarbodus', gan ddysgu oddi wrth awdurdodau lleol eraill fel Castell-nedd Port Talbot a Rhondda Cynon Taf, a thrafodaethau a dadansoddi mewnol. Dywedodd mai nod y gwaith hwn yw penderfynu ar y model gorau i ddarparu'r gwasanaeth o fewn y Cyngor. Cafwyd cydnabyddiaeth fod angen newid sylfaenol ym mhob agwedd ar y gwasanaeth cyfredol er mwyn gwella, ac mae camau wedi cael eu cymryd yn y meysydd a ganlyn hyd yma:

- Rôl yr asiant
- Gwaith dewisol
- Cydweithio a chefnogaeth

Dywedodd y Prif Swyddog Dros Dro - Cyllid, Perfformiad a Newid wrth y Pwyllgor fod angen gwneud gwaith dadansoddi pellach er mwyn cwblhau'r trefniadau i Ben-y-bont ar Ogwr ar gyfer y dyfodol, a phennu'r model gwasanaeth gorau i ddisodli'r hyn sydd ar waith ar hyn bryd, Bydd y Cabinet yn derbyn adroddiad sy'n amlinellu'r camau nesaf er mwyn newid o'r model cyfredol i unrhyw fodel newydd.

Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Partneriaeth wrth y Pwyllgor y bydd yr adolygiad yn canolbwyntio ar leoli'r dinesydd wrth wraidd y gwasanaeth, p'un a yw'n gwneud cais am fân waith addasu neu waith addasu graddfa fawr i'w alluogi i aros gartref.

Cyfeiriodd aelod o'r Pwyllgor at y ffaith nad oedd yr adroddiad yn cynnwys unrhyw oblygiadau ariannol, a gofynnodd a fyddai modd i adroddiad arall yn y dyfodol adlewyrchu graddfa ariannol y grantiau, yn ogystal â'r cyfraniad strategol tuag at gyflawni amcanion y Cyngor. Dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Partneriaeth wrth y Pwyllgor fod DGFs gwerth hyd at £36k yn cael eu cynnig a'u bod yn ddibynnol ar brawf modd. Dywedodd fod nifer o gyllidebau'n cael eu defnyddio i gefnogi DFGs, gan gynnwys helpu dinasyddion sy'n gadael yr ysbyty i ddychwelyd adref. Dywedodd y byddai'r adroddiad i'r Pwyllgor yn amlinellu'r modd y defnyddir y cyllidebau hyn i gefnogi'r grantiau hynny.

Pwysleisiodd aelod o'r Pwyllgor yr angen i gydweithio'n well ag ysbytai wrth ryddhau dinasyddion o'r ysbyty, a'r angen i osgoi ail-wneud gwaith wrth asesu'r addasiadau angenrheidiol. Yn ogystal â hyn, roedd angen monitro safon y gwaith er mwyn sicrhau bod contractwyr yn broffesiynol ac yn gymwys i gyflawni'r gwaith, er mwyn osgoi gwaith o safon wael. Dywedodd y Prif Swyddog Dros Dro - Cyllid, Perfformiad a Newid wrth y Pwyllgor fod angen perchnogi'r system gyfan, a bod yr holl brosesau wedi'u cynnwys ar

siart lif. Bellach roedd angen neilltuo arian yn erbyn yr holl brosesau / llifau gwaith hyn i gyflymu a dwyn holl rannau'r broses ynghyd. Dywedodd nad oedd cynnwys asiantau yn y broses wedi bod yn effeithiol, a bod hynny wedi achosi oedi a gwariant yn erbyn y grantiau. Cafwyd hefyd enghreifftiau o ail-wneud gwaith ac o waith gwael. Mae angen sicrhau, wrth ddefnyddio asiant, fod y broses yn mynd rhagddi'n briodol. Sicrhaodd y Pwyllgor fod y pryderon yn cael eu hystyried.

PENDERFYNWYD: Bod y Pwyllgor yn nodi'r cynnydd hyd yma i wella'r gwasanaeth DFG a'r sefyllfa gyfredol, ac y dylid cyflwyno adroddiad ar Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl gerbron cyfarfod y Pwyllgor ym mis Ebrill.

220. BLAENRAGLEN WAITH 2020-21 WEDI'I DIWEDDARU

Gofynnodd y Dirprwy Bennaeth Cyllid Dros Dro am gymeradwyaeth ar gyfer Blaenraglen Waith 2020-21 a oedd wedi'i diweddaru, a thynnu sylw at swyddogaethau craidd Pwyllgor Archwilio effeithiol. Dywedodd fod y Cyngor wedi cymeradwyo ailenwi'r Pwyllgor Archwilio yn Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ei Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol ar 30 Medi 2020, ac wedi cymeradwyo diwygio ei gylch gorchwyl i adlewyrchu'r newid hwnnw.

Cyfeiriodd at yr eitemau ar yr amserlen a oedd i'w cyflwyno gerbron cyfarfod nesaf y Pwyllgor ar 12 Tachwedd 2020, a gofynnodd i'r Pwyllgor ategu'r amserlen honno, cadarnhau'r rhestr y bobl yr hoffent eu gwahodd ar gyfer pob eitem (os oedd hynny'n briodol), a nodi a oedd angen unrhyw wybodaeth neu ymchwil bellach.

Hysbysodd y Pennaeth Gwasanaeth Archwilio Rhanbarthol y Pwyllgor y byddai aelodau'r Pwyllgor yn cael holiadur i'w lenwi ymhen ychydig ynghylch y rhaglen hyfforddi a datblygu ar gyfer y Pwyllgor.

PENDERFYNWYD: Bod yr Aelodau wedi ystyried a chymeradwyo'r Flaenraglen Waith a gynigiwyd ar gyfer 2020-21 ac y dylid cyflwyno adroddiadau ar Asesu Risg Twyll, Cynaliadwyedd Ariannol Llywodraeth Leol yn sgil Pandemig Covid-19 a'r Fenter Twyll Genedlaethol gerbron cyfarfod nesaf y Pwyllgor, a chyflwyno adroddiad ar Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl gerbron y Pwyllgor yn ei gyfarfod ym mis Ebrill.

221. EITEMAU BRYS

Nid oedd unrhyw eitemau brys.

Daeth y cyfarfod i ben am 15:48